

## Iechyd

**Darlleniad 1: Galarnad 3: 19-33**

**Darlleniad 2: Hebreaid 4: 16-18**

---

---

Down atat yn awr, O! Arglwydd ein Duw, yr un sy'n llywodraethu yn y nefoedd. Down o flaen y Duw sy'n Frenin y brenhinoedd ac yn Arglwydd yr arglwyddi. Cydnabyddwn fod pob nerth a gallu yn y byd a'r nef yn perthyn i ti, ac eto fod y llwybr hwn yn agored inni. Llwybr rhydd i ni'r annheilwng, y rhai sy'n glaf ar gyfrif ein pechod, yn medru rhodio yn iach drwy y gras sydd i ni yn Iesu Grist dy Fab. Diolch fod ei aberth Ef yn medru golchi ein pechod a'n hanheilyngdod ymaith, yn medru codi craith ein heuogrwydd, yn tynnu maes y gwenwyn a roes y sarff i ni, ac wrth y gwenwyn hwnnw yn marw ar Galfari. Diolch, O! Dad, bod iachawdwriaeth i bechadur yng nghlwyfau yr Arglwydd Iesu, bod gwellhâd yn ei ddiodefaint ef, fod moddion yn ei greithiau.

O! Arglwydd, wrth i ni ystyried y modd y bu i'r Iesu ein hiacháu, yr ydym yn gweld yn ei Groes ef hefyd foddion i'n cynnal a'n cadw hyd yn oed ynghanol afiechyd a phoen ein cyrff marwol. Diolch fod gennym ni un yn y nefoedd sydd wedi dioddef hyd at angau, sy'n awr yn cydymdeimlo â rhai sydd hefyd yn dioddef mewn corff darfodedig. Gwelwn o ddydd i ddydd arwyddion amlwg yn ein cyrff, nad oes i ni yma ddinas barhaus. Ynghanol ein nerth cawn olwg ar ein gwendid; ynghanol ein bywyd yr ydym yn gweld marwolaeth; ac eto, O! Dad, yr ydym ar yr un pryd yn cael fod ein Gwardwr croeshoeliedig yn medru cyfarfod â ni ynghanol ein hangen.

Cyflwynwn i'th sylw y sawl sydd heddiw yn dioddef ar gyfrif eu hiechyd. Gwyddom am deulu, am gymdogion, am gydnabod sy'n awr yn wynebu dyfodol ansicr. Gwyddom am rai sydd ddim yn mynd i ddod yn iach eto, yn gorfod dod i delerau â diwedd oes, a'u teuluoedd yn gorfod wynebu y golled, a'r bwlch fydd yn agor.

Gweddiwn dros y bobl hynny sy'n wynebu llawdriniaethau, mewn ansicrwydd, mewn gofid, mewn ofn. Arglwydd, nesâ at dy bobl.

Gweddiwn, O! Arglwydd, dros y rhai sy'n dioddef yn feddyliol. Cofiwn am y rhai sy'n cael eu gorchuddio gan amheuron, gan ofnau, gan anobaith. Gweddiwn dros rai sydd heno yn gweld bywyd yn ddi-gyfeiriad a di-bwynt, y rhai sydd wedi profi fod sŵn y byd a geiriau gwag yn annigonol, y rhai sy'n brwydro o bosibl gydag anghrediniaeth. Arglwydd boed i'th wawr lewyrchu i dywyllwch eu sefyllfa.

Gweddiwn dros y rhai sy'n dibynnu ar gymorth eraill, dros y rhai sy'n gweini, dros y rhai sy'n gofalu, ac o ganol ein gwynfyd, yr ydym yn cofio am eu hadfyd, ac yn diolch dy fod yn Iesu, yn Dad, yn Frawd, yn briod i dy bobl. Diolch, O! Dduw, nad yw dy bobl yn angof gennyt, ac yr ydym yn gweddïo y bydd i ti ddiogelu na fydd teulu poen yn angof gennym ni ychwaith. Yr ydym am gael gweini ac ymweld, gan fod yr Arglwydd wedi tywallt ei gariad yn ein calon. Gweddiwn na fydd i brysurdeb ofer gau ein llygaid i'r cyfle a gawn i wasanaethu'r Iesu drwy ofalu am y rhai sydd mewn angen.

Arglwydd, gwranddo ein gweddi, yn enw'r Iesu. Amen.

*Meirion Morris*